

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2021 Rhif 832 (Cy. 194)**

**CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF, CYMRU**

Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau  
Rhestredig ac Ardaloedd  
Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio)  
2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012 ("Rheoliadau 2012").

Mae rheoliad 2(2) yn cael gwared ar y gofyniad i gais a wneir gan awdurdod cynllunio lleol i newid neu estyn adeilad rhestredig yn ei ardal gael ei gyfeirio at Weinidogion Cymru i'w benderfynu. Mae rheoliad 2(3) a (4) yn ganlyniadol ar reoliad 2(2).

Mae rheoliad 2(5) yn mewnosod dau baragraff yn rheoliad 9 o Reoliadau 2012. Mae'r paragraff (8) newydd yn darparu na chaiff y pwyllgor neu'r isbwyllgor sy'n penderfynu ar gais gan yr awdurdod cynllunio lleol fod wedi ymwneud â rheoli'r adeilad. Mae'r paragraff (9) newydd yn darparu, pan fo cais gan yr awdurdod cynllunio lleol yn cael ei benderfynu gan yr awdurdod hwnnw, nad oes hawl i apelio.

Mae rheoliad 3 yn cynnwys darpariaeth drosiannol sy'n darparu y bydd unrhyw gais a wneir gan awdurdod cynllunio lleol i newid neu estyn adeilad rhestredig yn ei ardal cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym yn cael ei benderfynu gan Weinidogion Cymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru).

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2021 Rhif 832 (Cy. 194)**

**CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF, CYMRU**

**Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau  
Rhestredig ac Ardaloedd  
Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio)  
2021**

*Gwnaed* 12 Gorffennaf 2021

*Gosodwyd* gerbron *Senedd*  
*Cymru* 16 Gorffennaf 2021

*Yn dod i rym* 16 Awst 2021

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 10(3), 82(2)(1) a 93(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(2) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(3), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, dod i rym a dehongli**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio) 2021 a deuant i rym ar 16 Awst 2021.

- 
- (1) Am y diffiniad o "prescribed" gweler adran 91 o'r Ddeddf.  
(2) 1990 p. 9. Diwygiwyd adran 10(3) gan adran 118 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5) a pharagraff 20 o Atodlen 6 iddi, ac mae diwygiadau eraill i'r adran honno nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn. Nid yw adran 82(2) wedi ei diwygio ond mae diwygiadau eraill i'r adran honno nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn. Diwygiwyd adran 93(1) gan adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (dccc 4) ac mae diwygiadau eraill i'r adran honno nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.  
(3) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr “Rheoliadau 2012” yw Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012(1).

### **Diwygiadau i Reoliadau 2012**

2.—(1) Mae rheoliad 9 o Reoliadau 2012 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (2) hepgorer “, newid neu estyn”.

(3) Ym mharagraff (3) yn lle “unrhyw gais o’r fath” rhodder “gais o dan baragraff (2)”.

(4) Hepgorer paragraff (5).

(5) Ar ôl paragraff (7) mewnosoder—

“(8) Pan fo’n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol gael caniatâd adeilad rhestredig i newid neu estyn adeilad rhestredig yn ei ardal ni chaniateir i’r cais gael ei benderfynu gan—

(a) pwyllgor neu is-bwyllgor i’r awdurdod cynllunio lleol os yw’r pwyllgor neu’r is-bwyllgor hwnnw’n gyfrifol (yn llwyr neu’n rhannol) am reoli unrhyw adeilad y mae’r cais yn ymwneud ag ef, neu

(b) swyddog i’r awdurdod cynllunio lleol os yw ei gyfrifoldebau’n cynnwys unrhyw agwedd ar reoli unrhyw adeilad y mae’r cais yn ymwneud ag ef.

(9) Pan fo cais am ganiatâd adeilad rhestredig i newid neu estyn adeilad rhestredig yn cael ei wneud gan awdurdod cynllunio lleol a phan mai’r awdurdod hwnnw sy’n penderfynu ar y cais am ganiatâd adeilad rhestredig, ni fydd adran 20 o’r Ddeddf (hawl i apelio yn erbyn penderfyniad neu fethiant i wneud penderfyniad) yn gymwys.”

### **Darpariaeth drosiannol**

3. Nid yw’r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymwys i unrhyw gais a wneir yn unol â rheoliad 9(2) o Reoliadau 2012 cyn i’r Rheoliadau hyn ddod i rym.

*Julie James*

Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion

Cymru

12 Gorffennaf 2021

---

(1) O.S. 2012/793 (Cy. 108) a ddiwygiwyd gan O.S. 2015/1332 (Cy. 125), O.S. 2016/91 (Cy. 44), O.S. 2017/545 (Cy. 122) ac O.S. 2017/638 (Cy. 144), ac fel y’i haddaswyd gan O.S. 2016/56 (Cy. 26).